Clonc Clydau

Rhifyn 36 | Ysgol Clydau | Tymor yr Hâf 2018

Cyngor Cymreictod

Ar ddydd Llun Mehefin 18fed bu Mrs Llinos Penfold, Cydlynydd Cynllun Siarter Iaith Sir Benfro ar ymweliad a'r ysgol er mwyn asesu a oeddynt wedi cwrdd a gofynion y Gwobr Efydd. Braf oedd cael nodi bod yr ysgol wedi derbyn y Gwobr Efydd a derbyniodd Elain James, Jasmine Harris a Cian Lewis y darian a'r tystysgrif ar ran yr ysgol ar ddiwrnod Tanio'r Ddraig ar ddydd Iau Mehefin 28ain. O fis Medi bydd yr ysgol yn gweithio tuag at y Gwobr Arian gyda ffocws penodol yn dilyn arolwg disgyblion ar godi ymwybyddiaeth y disgyblion ar gerddoriaeth cymraeg a'u hannog i chwarae gemau trwy gyfrwng y gymraeg ar yr iard. Ar ddiwedd Tymor yr Hâf gwobrwywyd Dara Adamson ac Elisha Young yn Gymro a Chymraes y Tymor. Unwaith eto diolch i Glwb Gwawr Clydau am noddi y tariannau i'r disgyblion.



Prosiect Byd Eang Ysgolion Cynaladwy Sir Benfro

Yn ystod y tymor mae disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi derbyn y cyfle i astudio Lesotho fel rhan o brosiect Byd Eang Ysgolion Cynaladwy Sir Benfro. Buont yn cymharu eu hardal leol gyda ardaloedd yn Lesotho. Mrs S Davies buodd yn arwain y proseict a dymuna'r ysgol ddiolch iddi am ei gwaith caled. Ar ddydd Llun Gorffennaf 2il, bu grwp o ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol y Frenni er mwyn cwrdd ag athrawon o Lesotho a chael cyfle i wrando ar sut mae bywyd yn y wlad.

Gwybodaeth Bwysig i Rieni/Gwarcheidwyr ar gyfer mis Medi

Bydd pris cinio yn codi i fod yn £2.35 y dydd i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn Derbyn 1 a 2) a £2.45 i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (Blynyddoedd 3,4,5 a 6).

Ym mis Medi bydd gwersi nofio yn parhau ar ddydd Mercher gyda gwersi Addysg Gorfforol ar fore Iau.

Bwriedir Cynnal Diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd ar y diwrnodau canlynol:
Dydd Llun Medi 3ydd Dydd Llun Ionawr 7fed Dydd Gwener Ebrill 12fed
Dydd Llun Gorffennaf 22ain

Bydd yr ysgol yn ail agor ar ddydd Mawrth Medi 4ydd.

Digwyddiad Mentergarwch – Ffair Hâf

Ar brynhawn Gwener Mai 25ain bu'r disgyblion hŷn yn gyfrifol am gynnal digwyddiad mentergarwch gan godi arian tuag at yr ysgol. Etholwyd Elain James a Jac Ifans-Lloyd i gydlynu'r digwyddiad. Trefnwyd nifer o stondinnau megis golchi ceir, cacennau, tombola, tatŵs, bric a brac, cardiau a dyfalu y nifer o ,losin mewn jar. Enillwyr y gystadleuaeth y nifer o losin mewn jar oedd Kaeysea Singh, Gwenno Francis a Luke Smith. Diolch i bawb oedd wedi cyfrannu nwyddau tuag at y dydd ac am eich cefnogaeth gan sicrhau bod £368 wedi'i gasglu.

Bu'r disgyblion yn brysur yn gwerthu arteffactau i'w werthu ar stondin yn Ffair Mentergarwch y Sir, Hwlffordd. Roedd hwn yn gyfle i'r disgyblion ddefnyddio eu sgiliau mathemateg ar draws y cwricwlwm ac eu hannog i gyfathrebu ag eraill. Llwyddodd y disgyblion wneud elw o £102.10 yn y ffair. Profiad gwerth chweil i bawb.

Cyfarfod Blynyddol Rhieni Llywodraethwyr

Braf oedd gweld gymaint o rieni yng Nghyfarfod Blynyddol Llywodraethwyr ar Nos Fawrth Mehefin 26ain. Cafwyd noson gerddorol iawn yng nghwmni band/cerddorfa a chôr yr ysgol o dan arweinyddiaeth Miss Helen Standing.

Yma Miss ! Yma Syr !

Unwaith eto y tymor yma cyflwynwyd tystysgrifiau i bob plentyn oedd a chanran presenoldeb o 98% neu uwch hyd at ddydd Iau Gorffennaf 19eg. Felly dyma'r plant a lwyddodd i dderbyn tystysgrifau ar ddiwedd Tymor yr Hâf:

98% - Kyle Toovey, Alana James, Haydn Ditcher, Jac Ifans-Lloyd

99% - Elain James, Ruby King, , Cerys Davies,

100%- Elliemae Fairbairn, Elliott Bailey-Williams, Chloe Drewett, Cian Lewis, Dafydd Davies, Charlie Jackson, Awen Lewis, Erin King, Kaeysea Singh, Luke Smith, Gwenno Francis, Elisha Young Cerys Watkins, Alana Jackson, Ethan Williams, Cadi Howell, Ryan Watkins, Rhys Woolley, Molly King.

Presenoldeb Tymor yr Hâf oedd **94.7%.**

Yn ogystal eleni gwobrwyd disgyblion a dderbyniodd presenoldeb o 100% am y flwyddyn gyfan. Y plant lwcus oedd: Elliott Bailey-Williams ac Alana Jackson.

Digwyddiadau Chwaraeon

Cynhaliwyd ein mabolgampau ar ddydd Gwener Mehefin 29ain. Mwynhawyd prynhawn llawn o gystadlu. Llangennau oedd y tîm buddugol eleni y tro cyntaf ers Hâf 2008. Cynhaliwyd cystadlaethau Taflu Siot , Gwaywffon, disgen a naid hir diwrnodau yng ngynt gyda Tîm Llangennau yn ennill y cystdlaethau yma hefyd. Unwaith eto eleni derbyniodd y bachgen a'r ferch ym Mlwyddyn 6 â enillodd y marciau mwyaf, darian fach yr un, a'r enillwyr oedd Harvey Hayden ac Elain James.

Cystadleuwyr y Gala Nofio

Tîm buddugol – Pedran

Harvey Hayden ac Elain James yn derbyn tariannau am y ferch a'r bachgen ucha eu sgor ym Mlwyddyn 6.

Ar ddydd Mawrth, Mehefin 12fed cynrychiolwyd yr ysgol mewn cystadleuaeth criced ar gae criced Glandy Cross. Llwyddwyd i ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Aelodau'r tim oedd Elain James, Jac Ifans-Lloyd, Scott Watts, Luke Smith, Mitchell Sherwood, Elliott Bailey-Williams, Kaeysea Singh, Jasmine Harris a Cian Lewis.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion a gymerodd ran yng Ngala Nofio Clwstwr Ysgolion y Preseli ym mis Ebrill. Aelodau'r tim nofio oedd Luke Smith, Elliott Bailey-Williams, Haydn Ditcher, Kaeysea Singh, Jasmine Harris, Chloe Drewett, Ffion Bowen ac Erin King. Llwyddodd y tîm i ddod yn bedwerydd allan o wyth ysgol. Derbyniodd yr ysgol chwech gwobr sef:-

2il – Elliott Bailey-Williams – Strôc Flaen
2il – Elliott Bailey-Williams – Strôc Gefn
2il – Ras Gyfnewid Gymysg i Fechgyn
3ydd – Haydn Ditcher – Strôc Pili pala
3ydd – Luke Smith – Strôc Broga
4ydd – Ras Gyfnewid Strôc Flaen i Fechgyn

Newyddion C.A.R Ysgol Clydau

Ar nos Wener Mehefin 22ain cynhaliwyd noson Ras Peli, Taith Gerdded a Barbeciw. Mwynhaodd pawb y daith o'r Ysgol trwy'r pentref i fyny i'r Tafarn yna i Benbanc ac yn ol i'r ysgol. Gwnaed elw o tua £577 ar ddiwedd y digwyddiad. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd gan sicrhau noson llwyddiannus iawn.

Canlyniad y Ras Peli:-
1af – 201 – Angharad Scourfield
2il – 455 – Sian Davies
3ydd – 312 – Grace Davies
4ydd – 171 – G Smith.

Ar nos Iau Gorffennaf 19eg cynhaliwyd disgo yng Nghanolfan Clydau, Tegryn i'r disgyblion. Mwynhaodd pawb y noson gyda elw o £140 yn cael ei wneud.

Cynhelir y cyfarfod nesaf sef y Cyfarfod Blynyddol, ar ddydd Iau, Medi 20fed, am 7:00yh. Croeso cynnes i bawb.

Colofn yr Urdd

Mwynhaodd Elain James, Jac Ifans-Lloyd, Jasmine Harris, Elliott Bailey-Williams, Callum Chambers, Haydn Ditcher, Cian Lewis, Kaeysea Singh, Mitchell Sherwood a Luke Smith tridiau yng Ngwersyll yr Urdd Bae Caerdydd. Bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau megis y cwch cyflym, bowlio deg ac ychydig o gwsg.

Cystadleuwyr Mabolgampau'r Urdd

Ymweliad â Bae Caerdydd

Ar ddydd Mawrth Mai 22ain bu plant blynyddoedd Derbyn, 1 a 2 yn cymeryd rhan yn Jambori yr Urdd yn neuadd Cilgerran yng nghwmni Gwenda Owen.

Cynhaliwyd Mabolgampau yr Urdd ar ddydd Iau Gorffennaf 5ed ar gae pêl-droed Tegryn. Llwyddwyd i dderbyn 9 gwobr.

1af – Jasmine Harris – Ras Hir Merched Blwyddyn 5 a 6
1af – Kaeysea Singh – Gwaywffon Bechgyn Blwyddyn 5
1af – Liam Young – Ras Ŵy a Llwy Bechgyn Blwyddyn 2
2il – Kaeysea Singh – Ras Rhedeg Bechgyn Blwyddyn 5
2il – Luke Smith – Gwaywffon Bechgyn Blwyddyn 5
2il – Cerys Davies – Ras Rhedeg Merched Blwyddyn 1
2il – Cerys Davies - Ras Ŵy a Llwy Merched Blwyddyn 1
3ydd – Erin King – Gwaywffon Merched Blwyddyn 4
3ydd – Ras Gyfnewid Merched Blwyddyn 5 a 6 (Elain James, Jasmine Harris, Chloe Drewett, Elliemae Fairbairn)

Yn ystod yr hanner tymor cyntaf cynhaliwyd yr Adran gyda chefnogaeth Gwenda Savins a Rhodri Lewis. Diolch i Gwenda Savins am greu yr arddangosfa blodau wrth y brif fynedfa.

Ysgol Iach

Unwaith eto eleni cynhaliwyd ein bore Cerdded i'r Ysgol ar ddydd Gwener Mai 25ain. Er braidd yn gymylog, roedd hi'n ddiwrnod llwyddiannus gyda'r plant yn cerdded o'r Hen Swyddfa Bost i lawr i'r ysgol.

Unwaith eto y tymor yma ymwelodd PC Helen Llywellyn â'r ysgol, bu'n esbonio ymddygiad anghymdeithasol â disgyblion Dosbarth 1 a 2 a chyflwyno peryglon defnyddio gwefannau cymdeithasol i blant Dosbarth 3. Esboniodd y negeseuon yn glir i'r plant gan adael iddynt ofyn cwestiynau am y pynciau.

Digwyddiad Bore Cerdded i'r Ysgol

Cwrs Beicio Diogel

Cwrs Beicio Diogel

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am basio eu prawf beiciau ar ddiwedd mis Mehefin:- Scott Watts, Harvey Hayden, Jac Ifans-Lloyd, Elain James, Jasmine Harris, Chloe Drewett, Ffion Bowen, Elliott Bailey-Williams, Mitchell Sherwood, Haydn Ditcher, Kyle Toovey, Sion Bowen, Luke Smith, Cian Lewis, Callum Chambers a Kaeysea Singh. Mwynhewch eich amser ar eich beic a chofiwch yr hyn rydych wedi ei ddysgu.

Digwyddiadau'r Tymor

Ar gyfer ein Trip Blynyddol mwynhaodd plant Blynyddoedd Derbyn 1 a 2 y diwrnod ym mharc Clerkenhill ger Hwlffordd. Cafodd plant Blynyddoedd 3,4,5 a 6 ddiwrnod llawn hwyl a sbri yn Heatherton.

Bu'r disgyblion yn cystadlu yng nghystadlaethau Celf Carnifal Tegryn ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 7fed, a'r enillwyr oedd:-
Dosbarth 1:- 1af – Liam Young; 2il – Cadi Howell ac Amy Beynon.
Dosbarth 2:- 1af – Awen Lewis; 2il – Dafydd Davies.
Dosbarth 3:- 1af – Cian Lewis; 2il – Callum Chambers.

Ymweliad Llinos Mair

Ar ddechrau Mehefin bu'r awdures Llinos Mair ar ymweliad a'r ysgol gan drafod y llyfrau y mae wedi ei chyhoeddi. Bu'r disgyblion yn dysgu am beryglon plastigion yn cyrraedd y môr a phwysigrwydd ailgylchu.

Awdures Llinos Mair

Parti Penblwydd Cyw yn ddeg oed

Trip y Cyfnod Sylfaen - Clerkenhill

Parti Penblwydd Cyw

Ar ddechrau Gorffennaf cynhaliwyd parti yn nosbarth 1 i ddathlu penblwydd Cyw yn ddeg oed. Bu'r disgyblion yn brysur trwy'r bore yn paratoi'r bwyd.

Cafodd plant Blwyddyn 6 y cyfle i dreulio wythnos yn Ysgol y Preseli fel rhan o'i Cwrs Croeso ynghyd âg ymweld ar ddydd Gwener Gorffennaf 1af. Yn ogystal bu plant Blwyddyn 5 ar ymweliad âg Ysgol y Preseli ar ddydd Mawrth Gorffennaf 12fed.

Dymunwn pob llwyddiant i Elain James a Jac Ifans-Lloyd a fydd yn mynychu Ysgol y Preseli, Scott Watts a fydd yn mynycuu Ysgol Uwchradd Aberteifi a Harvey Hayden a fydd yn dechrau yn Ysgol Gyfun Emlyn ym mis Medi. Pob hwyl a dymuniadau gorau i chi i gyd.

Polisi Cwyn – Os oes gennych unrhyw gwŷn ynglŷn â'r ysgol, yna yn gyntaf dylech gysylltu â'r ysgol. Os yw yn fater pellach yna dylid anfon lythyr i Gadeirydd y Llywodraethwyr gyda 'Cadeirydd y Llywodraethwyr' wedi ei farcio'n glir ar yr amlen.

App yr Ysgol – Cofiwch er mwyn derbyn y newyddion diweddaraf am yr ysgol a bod yn ymwybodol am ddigwyddiadau'r ysgol, edrychwch ar app yr ysgol ar Ourschoolsapp. Er mwyn lawrlwytho'r app mae angen mynd i'r app store yna chwilio am ourschoolsapp; ei lawrlwytho a chwilio am Ysgol Clydau.

Dyddiau i'r Dyddiadur:-
04/09/2018 – Dychwelyd yn ôl i'r ysgol
20/9/2018 – Cyfarfod Blynyddol C.A.R Ysgol Clydau
Hoffwn fel ysgol ddymuno gwyliau hâf hapus a diogel i bawb ac edrychwn ymlaen i'ch gweld yn ôl yn yr ysgol ar ddydd Mawrth Medi 4ydd.

Term Events

At the end of term we went on our annual trip. Children in Year Reception 1 and 2 visited Clerkenhill Park near Haverfordwest. Children in Years 3,4,5 and 6 visited Heatherton near St. Florence and enjoyed a variety of activities.

Most pupils competed in the Tegryn Carnival Arts And Crafts competition on Saturday July 7th. The winners were:-
Class 1:- 1st – Liam Young; 2nd – Cadi Howell and Amy Beynon.
Class 2:- 1st – Awen Lewis; 2nd – Dafydd Davies.
Class 3:- 1st – Cian Lewis; 2nd – Callum Chambers

A visit by Llinos Mair

At the beginning of June a welsh author, Llinos Mair, visited the school to discuss the different books she has published. The pupils had the opportunity to learn about the dangers of plastics and how important it is to recylce all materials.

Author – Llinos Mair

Cyw 10th Birthday Celebration

Foundation Phase Trip

Cyw's Birthday Party

At the beginning of July pupils in Class 1 arranged a party to celebrate Cyw's tenth birthday. All the pupils had been busy in the morning preparing the food.

Children in Year 6 visited Ysgol y Preseli for a week during June as part of the Cwrs Croeso to encourage children to speak Welsh around the school as well as a visit on July 6th. Also, children in Year 5 have started the transition process by visiting Ysgol Preseli on Tuesday July 3rd.

Our best wishes go to Elain James and Jac Ifans-Lloyd who will be attending Ysgol Preseli in September, to Scott Watts who will be attending Ysgol Uwchradd Aberteifi and to Harvey Hayden who will attend Ysgol Gyfun Emlyn.

Complaints Policy – if you want to complain about a matter regarding the school, please contact the school. If it is a further matter then please write a letter to the Chair of Governors clearly marking the envelope with ' Attention Chair of Governors'.

School App – Please remember to use the school app for latest news about the school and to receive information about school events. To receive the information; download the ourschoolsapp from your app store and browse for Ysgol Clydau.

Dates for the Diary:-
04/09/2018 – Return to school
20/9/2018 – Ysgol Clydau PTA Annual General Meeting

As a school we would like to wish all pupils, parents, guardians and friends of Ysgol Clydau a happy and safe summer holiday and we look forward in seeing you back at school on Tuesday, September 4th.